



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

**Aled Roberts**  
Comisiynydd y Gymraeg  
[Welsh Language Commissioner](#)

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

[SeneddDCC@senedd.cymru](mailto:SeneddDCC@senedd.cymru)

10/06/2020

Annwyl Gadeirydd

## Ymgynghoriad ar wneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae gan iaith rôl allweddol wrth weinyddu cyfiawnder yn deg ac effeithiol; ac mae'r dystiolaeth isod yn canolbwyntio'n benodol ar yr angen i'r system gyfiawnder a'r maes cyfreithiol allu gweithredu yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg er mwyn diogelu hawliau dinasyddion.

Gan ddilyn cylch gorchwyl yr ymgynghoriad, rwy'n nodi'r ffeithiau ynghylch y sefyllfa bresennol yn y rhan gyntaf a thynnu sylw'n benodol at rai cryfdera u neu wendidau sydd wedi dod i'r amlwg. Yn yr ail ran, rwy'n nodi pa newidiadau yr wyf o'r farn sydd angen eu cyflwyno i wella'r ffordd mae'r system gyfiawnder yn gweithio er budd y Gymraeg a'i siaradwyr.

### Rhan 1: Canfod y ffeithiau ac edrych tua'r dyfodol

#### Cefndir deddfwriaethol

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
[post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

[comisiynyddygyymraeg.cymru](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
[post@welshlanguagecommissioner.wales](mailto:post@welshlanguagecommissioner.wales)  
Correspondence welcomed in Welsh and English

[welshlanguagecommissioner.wales](http://welshlanguagecommissioner.wales)



Mae hawl unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn y maes cyfiawnder wedi esblygu dros amser, a bellach mae'r Gymraeg wedi ei sefydlu fel un o ddwy iaith cyfraith a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

- Rhoddodd Deddf Llysoedd Cymru 1942<sup>1</sup> a Deddf yr Iaith Gymraeg 1967<sup>2</sup> hawl i unigolion siarad Cymraeg mewn achosion llys.
- Yn 1993, sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg<sup>3</sup> yr egwyddor 'wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.'
- Rhoddodd Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol<sup>4</sup> yr hawl i unrhyw berson a gyhuddwyd o drosedd i wrandawriad teg ac mae hynny'n cynnwys cael gwybod yn brydlon, mewn iaith y mae'n ei deall ac mewn manylder, am natur a sail y cyhuddiad yn ei erbyn.
- Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006<sup>5</sup> a Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020<sup>6</sup> mae testunau Cymraeg a Saesneg pob Mesur Cynulliad a Deddf Senedd Cymru sydd yn Gymraeg ac yn Saesneg pan gânt eu deddfu, a thestunau unrhyw is-ddeddfwriaeth sydd yn Gymraeg ac yn Saesneg pan gaiff ei wneud, i'w trin at bob diben fel petai eu statws yn gydradd â'i gilydd.
- Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2017 swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg a rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Sefydlodd hefyd bwerau i'r Comisiynydd osod safonau ar sefydliadau a rheoleiddio'r sefydliadau hyn, gan sicrhau eu bod yn dilyn y safonau a delio â chwynion am amheuaeth o dor-safon; swyddogaeth i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, ymchwilio os ydy rhywun yn

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo6/5-6/40/enacted>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1967/66/enacted>

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/contents>

<sup>4</sup> [https://www.echr.coe.int/Documents/Convention\\_ENG.pdf](https://www.echr.coe.int/Documents/Convention_ENG.pdf)

<sup>5</sup> <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/section/156>

<sup>6</sup> <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2020/1/schedule/2/paragraph/1/enacted/welsh>

<sup>7</sup> <http://www.legislation.gov.uk/mw/a/2011/1/contents/enacted/welsh>



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

rhwystro ar ryddid person i ddefnyddio'r Gymraeg a sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg<sup>8</sup> i wrando ar achosion ar benderfyniadau'r Comisiynydd mewn perthynas â'r safonau.

Fel rheoleiddiwr, y mae swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg yn rhan annatod o'r tirlun cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru, ac mae adroddiad ymchwil<sup>9</sup> a gyhoeddwyd ar y cyd gan academyddion o brifysgolion Bangor a Chaerdydd yn manylu ar rôl y sefydliad o fewn y cyd-destun cenedlaethol. Rhydd adrannau 8-10 y Mesur ganiatâd i'r Comisiynydd gychwyn neu ymyrryd mewn achos cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr<sup>10</sup> a gallwn hefyd ddarparu cymorth cyfreithiol i unigolyn. Fel swyddfa, rydym wedi cyhoeddi dogfen fframwaith sy'n egluro sut y byddwn yn defnyddio'r pwerau hyn.<sup>10</sup>

Fel aelodau o Bwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr iaith Gymraeg, sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru, rydym yn cydweithio â'r sector i rannu gwybodaeth arbenigol yn ôl yr angen. Ym mis Mawrth 2020 gwnaed y Comisiynydd yn 'berson a ganiateir' ar gyfer bod yn rhan o achosion Llys Teulu pe byddai angen.

## Gweithredu swyddogaethau cyfiawnder

Yn unol ag Adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder<sup>11</sup> a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi (GLIThEM)<sup>12</sup> gynlluniau iaith, sy'n eu hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynlluniau iaith yn egluro pa wasanaethau y byddant yn eu darparu yn Gymraeg, sut a phryd. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu ar gyfer ymchwiliadau statudol gennyf fel Comisiynydd os oes amheuaeth eu bod wedi methu â chyflawni'r cynlluniau iaith.

<sup>8</sup> <https://tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru/>

<sup>9</sup> <https://mk0nuffieldfounpg9ee.kinstacdn.com/wp-content/uploads/2019/11/Public-Administration-and-a-Just-Wales-Final-Full.pdf>

<sup>10</sup> <http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Adolygiad%20barnwrol%20ac%20achosion%20cyfreithiol%20eraill.pdf>

<sup>11</sup> [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/705855/HMCTS\\_Welsh\\_Language\\_Scheme\\_2018.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/705855/HMCTS_Welsh_Language_Scheme_2018.pdf)

<sup>12</sup> [http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/MoJ%20revised%20Welsh%20Language%20Scheme%202018%20\(Cymraeg\).pdf](http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/MoJ%20revised%20Welsh%20Language%20Scheme%202018%20(Cymraeg).pdf)



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Cyflwynodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith newydd o ddyletswyddau statudol ar sefydliadau ar ffurf safonau. Mae'r gyfundrefn safonau yn adeiladu ar lwyddiant cynlluniau iaith drwy godi'r disgwyliadau ar sefydliadau o ran eu defnydd o'r Gymraeg. Yn unol ag amcanion y Mesur, disgwylir y gwelir cynnydd yn y defnydd o wasanaethau Cymraeg dros y blynyddoedd nesaf wrth i sefydliadau weithredu'r safonau. Ers Mawrth 2017 mae dyletswydd ar i heddluoedd Cymru a phum tribiwnlys<sup>13</sup> gydymffurfio â safonau mewn pum maes sef safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu a chadw cofnodion. Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer gosod safonau ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder a GLIThEM, gyda chydysyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, ond hyd nes y digwydd hynny bydd y ddau sefydliad yn gweithredu cynlluniau iaith. Mae gennyf bwerau ymchwilio a gorfodi cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg, ond nid oes gennyf bwerau gorfodi cydymffurfiaeth â chynlluniau iaith.

Mae heriau penodol yn ymwneud â sicrhau bod sefydliadau sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder yn cydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol o ran y Gymraeg, ac â sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yr her fwyaf yn hyn o beth yw cadw golwg ar berfformiad sefydliadau sy'n gweithio'n unol â dwy gyfundrefn gyfreithiol wahanol, a'r heriau penodol sy'n codi pan fo'r sefydliadau hyn yn cydweithio â'i gilydd neu â sefydliadau eraill.

## Heddluoedd

Mae adroddiadau sicrwydd blynyddol y Comisiynydd<sup>14</sup> ar berfformiad sefydliadau wrth weithredu eu dyletswyddau iaith yn tynnu sylw at rai o'r camau sydd wedi eu cymryd i wella'r ffordd caiff y Gymraeg ei thrin. O fewn yr heddluoedd, mae'r camau hyn wedi cynnwys cynyddu sgiliau ieithyddol y gweithlu drwy ddatblygu eu prosesau recriwtio, dyrchafu a hyfforddi a chyflwyno trefniadau hunanreoleiddio i adnabod bylchau a dathlu

<sup>13</sup> [Tribiwnlys Adolygiad Iechyd Meddw I Cymru](#); [Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru](#); [Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru](#); [Tribiwnlys Priso Cymru](#); [Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru](#)

<sup>14</sup> <http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Cymraeg/Sefydliadau/Cydymffurfio/Sicrwydd/Pages/AdroddiadauSicrwydd.aspx>



Ilwyddiannau. Fel rhan o'm gwaith rheoleiddio ac er mwyn gwella a chysoni defnydd o'r Gymraeg, rwy'n rhannu'r arferion llwyddiannus rhwng sefydliadau, ac mae'r heddluoedd wedi bod yn ganolog i'r gwaith hwn.

## Y gwasanaeth prawf a charchardai

Mae Gwasanaeth Prawf a Charchardai ei Mawrhydi (HMPPS) yn gweithredu yn unol â chynllun iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Ym mis Rhagfyr 2018 cyhoeddodd fy rhagflaenydd adroddiad 'Cymraeg yn y carchar: arolwg o hawliau a phrofiadau carcharorion sy'n siarad Cymraeg'<sup>15</sup>. Sail yr adroddiad oedd cyfres o gyfweiliadau gyda charcharorion, arolygon o ddogfennaeth a deddfwriaeth, a thystiolaeth gan sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth carchardai. Tynnodd yr adroddiad sylw at rai achlysuron lle roedd carcharorion yn osgoi defnyddio'r Gymraeg neu ofyn am wasanaeth Cymraeg yn y carchar rhag ofn gwneud eu bywyd yn anos yn y carchar; a nodwyd bod achlysuron wedi bod lle roedd rhai staff carchardai wedi ymyrryd â rhyddid carcharorion i siarad Cymraeg â'i gilydd ac â'u teuluoedd.

Caiff gwasanaethau allweddol (iechyd, gofal, addysg, llyfrgelloedd) o fewn carchardai eu darparu gan sefydliadau eraill. Yng Nghymru, mae'r gwasanaethau hyn yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg neu gynlluniau iaith Gymraeg. Am resymau staffio ac oherwydd bod hawliau penodol yn cael eu creu gan ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru yn unig, mae mwy o hawliau cyfreithiol a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn carchardai a leolir yng Nghymru na Lloegr. Mae agor CEM Berwyn yn Wrecsam wedi arwain at wella'r ddarpariaeth Gymraeg, ond mae yna dal nifer fawr o achosion lle caiff pobl o Gymru eu carcharu mewn carchardai yn Lloegr. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos menywod gan nad oes yna yr un carchar i fenywod yng Nghymru. Mae'r diffyg darpariaeth yng Nghymru i fenywod yn fater sy'n fy mhryderu.



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Amlygodd yr arolwg bryderon eraill yn ogystal ynghylch y dull y mae HMPPS yn adrodd yn flynyddol ar gyflawniad ei gynllun iaith, sef:

- nad oes sicrwydd bod gan HMPPS ddata sy'n dangos yn union faint o garcharorion sy'n medru'r Gymraeg ar draws yr ystâd, sy'n ei gwneud yn anodd i gynllunio anghenion ac ymgyrchoedd i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg.
- nad oes sicrwydd bod gan HMPPS ddata manwl am lefel sgiliau iaith Gymraeg ei staff, a fyddai'n galluogi cynllunio anghenion ieithyddol y gweithlu;
- nad oes sicrwydd bod cysondeb yn y gwasanaethau Cymraeg a gynigir ar draws yr ystâd;
- nad yw S4C ar gael mewn carchardai yn Lloegr;
- nad yw'r Comisiynydd wedi gweld tystiolaeth fod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth benderfynu ym mha garchar i leoli carcharorion.

## Llysoedd a Thribiwnlysoedd

Mae nifer o ddatblygiadau'n cefnogi'r defnydd o Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru. Mae Pwyllgor Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg yn bodoli er mwyn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd yng Nghymru. Mae ei aelodau'n cynrychioli'r farnwriaeth, gweithwyr ym myd y gyfraith, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a chyrrff eraill sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder, ac mae fy swyddogion yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor yn rheolaidd. Mae Rhwydwaith Cyfiawnder Cymru yn cydlynu hyfforddiant yn y Gymraeg ar gyfer cyrrff cyhoeddus sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder; ac mae gan GLIThM uned arbenigol sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd.

Fel yn achos pob agwedd ar waith gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru mae'n hollbwysig bod yr amodau a'r trefniadau yn eu lle i alluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ôl eu



dymuniad. Ym maes cyfiawnder teuluol a rhai tribiwnlysoedd<sup>16</sup> mae hyn yn bwysicach fyth gan eu bod yn ymwneud â phlant a allai fod yn uniaith neu yn llawer mwy hyderus yn y Gymraeg nag yn y Saesneg, neu yn fregus ac angen cyfathrebu yn eu mamiaith.

Mae GLIThEM wedi datblygu gwasanaethau ar-lein yn Gymraeg ar gyfer gwneud cais am ysgariad ac apelio i'r Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant. Mae'r systemau hyn yn rhoi opsiwn i'r cyhoedd i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein yn hytrach na ffurflenni neu sefyllfaoedd wyneb yn wyneb. Roedd darparu'r gwasanaethau hyn yn Gymraeg yn rhan o bensaerniaeth cynllunio'r gwasanaethau newydd o'r cychwyn.

Elfen hollbwysig o ddatblygu technoleg at ddefnydd sefydliadau yng Nghymru yw sicrhau fod y Gymraeg yn rhan o ddatblygu'r dechnoleg a'r dull o'i defnyddio o'r cychwyn. Mae'n hanfodol sicrhau bod unrhyw ddulliau digidol newydd a ddatblygir at bwrpas gweinyddu cyfiawnder yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg. Yn hynny o beth mae'n gadarnhaol bod ystyriaeth wedi'i roi i'r angen am gyfieithu ar y pryd mewn llysoedd newydd sydd wedi'u hadeiladu yng Nghymru megis yng Nghanolfan Gyfiawnder Caernarfon. Mae'r ymbellhau cymdeithasol yn sgil argyfwng COVID-19 wedi ychwanegu elfen o frys ar gyfer trefnu bod modd i unrhyw barti ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd ar-lein. Rwyf wedi cyhoeddi arweiniad<sup>17</sup> ymarferol i sefydliadau yn ystod yr argyfwng ar sut y gellid parhau i gynnig gwasanaethau dwyieithog o safon.

Gan nad oes darpariaeth ar gyfer caniatáu rheithgorau dwyieithog yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'n bwysig sicrhau nad yw'r sawl sy'n cael ei gyfieithu neu sy'n derbyn y cyfieithiad yn colli unrhyw beth o ystyr gwreiddiol tystiolaeth, ac nad yw tyst o dan unrhyw anfantais am ddewis siarad Cymraeg. Deallaf fod ymchwil ar y gweill gan Brifysgol Aberystwyth ar fesur effaith cyfieithu ar y pryd mewn achosion llys.

## Y proffesiwn cyfreithiol ac addysg

<sup>16</sup> Er enghraifft [Tribiwnlys Adolygiad Iechyd Meddw I Cymru](#); [Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru](#)

<sup>17</sup>

<http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20200507%20Cynnal%20cyfarfodydd%20fideo%20dwyieithog.pdf>



Gan fod hawl gan unrhyw barti mewn achos llys yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg a bod y Senedd yn creu deddfwriaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a bod testunau'r ddwy iaith yn gyfartal, mae'n hanfodol sicrhau bod digon o aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol yn medru'r Gymraeg er mwyn hwyluso mynediad at gyfiawnder.

Mewn araith i nodi hanner canmlwyddiant Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 dywedodd Yr Arglwydd Ustus Lloyd-Jones bod y '[F]arnwriaeth Gymraeg ei hiaith wedi datblygu. Gan gynnwys y Farnwriaeth ran-amser, mae heddiw 40 o farnwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg. Mae chwarter y Barnwyr Cylchdaith a'r Barnwyr Rhanbarth yng Nghymru yn gallu cynnal achosion yn Gymraeg [...]Cyn belled ag y bo penodi barnwyr yn y cwestiwn, mae bellach yn bosibl nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer penodiad i swydd benodol, ac mae hyn yn digwydd yn aml. Yn yr un modd, mae'n bosibl ers 2010 i hysbysebu am ynadon sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae dros 200 o ynadon sy'n gallu cynnal achosion yn Gymraeg ar hyn o bryd a bydd hyn yn sicrhau bod modd cynnal os nad cynyddu'r nifer o ynadon sy'n medru'r Gymraeg.'

Gallai bod gofyn ar gyfreithwyr, bargyfreithwyr a barnwyr i ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â chyfraith Cymru sy'n ddwyieithog yn benodol, yn ogystal â chyfraith Cymru a Lloegr. Y tu hwnt i ddehongli'r gyfraith ei hun yn achos deddfwriaeth ddwyieithog gallasai sefyllfaoedd godi lle byddai angen dehongli a darllen testunau Cymraeg yn unig mewn perthynas ag achosion sy'n ymwneud â chyfraith Cymru a chyfraith Cymru a Lloegr.

Eisoes mae modd astudio modiwlau a chredydau mewn troseddeg a'r gyfraith trwy gyfrwng y Gymraeg mewn nifer o brifysgolion yng Nghymru. Mae hynny yn rhannol yn deillio o weithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y meysydd hyn. Mae cynlluniau academiaidd y Coleg yn amlinellu'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y prifysgolion i'w canfod ar wefan y Coleg<sup>18</sup>.

---

<sup>18</sup> <https://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/ycoleg/cynllunioacademaidd/>





Cysylltodd rhai aelodau'r cyhoedd â'm rhagflaenydd i fynegi pryder na fyddai'r arholiad newydd i gyfreithwyr a gyflwynir gan Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr ar gael yn Gymraeg. Trafodwyd y mater â'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr yn ogystal â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Cwnsler Cyffredinol, Jeremy Miles AC, a chyflwynwyd cyngor<sup>19</sup> o dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr yn gofyn iddo ailystyried y penderfyniad i beidio â gwneud yr arholiad ar gael yn Gymraeg. Rwyf mewn cyswllt rheolaidd â'r Awdurdod i drafod cynnig arholiad newydd yr SQE yn Gymraeg, ac ar 5 Mehefin 2020 derbyniais lythyr gan Brif Weithredwr yr Awdurdod yn cadarnhau y bydd yr arholiad yn cael ei chynnig yn Gymraeg, a bod hyn i ddigwydd mewn cyfres o gamau dros bedair blynedd. Datblygiad cadarnhaol arall yn ddiweddar oedd bod yr Awdurdod, rhwng Chwefror a Mai 2020, wedi ymgynghori ar gynnig i ddiwygio ei egwyddorion er mwyn cynnwys gofyniad i gyfreithwyr cymwys ddangos gallu ieithyddol yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn hytrach na'r Saesneg yn unig. O ddiwygio'r egwyddorion yn y modd hwn, bydd gofynion ieithyddol yn sicrhau nad yw ymgeiswyr sy'n dymuno dangos eu gallu ieithyddol yn y Gymraeg o dan anfantais, a bydd yn adlewyrchu cymdeithas ddwyieithog Cymru a'r egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## **Rhan 2: Sut y gallai'r system gyfiawnder weithredu'n fwy effeithiol yng Nghymru**

Rwyf wedi cyflwyno darlun cyffredinol o'r sefyllfa bresennol yn Rhan 1, a thynnu sylw at rai meysydd sy'n peri pryder. Yn Rhan 2 rwy'n cyflwyno rhai datrysiadau posibl i'r pryderon hynny.

### **Dyletswyddau iaith**

Mae tystiolaeth glir bod safonau'r Gymraeg wedi arwain at wella profiadau pobl wrth



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

ddefnyddio gwasanaethau. Mae'r safonau hefyd wedi arwain at greu sefyllfa lle mae gan weithwyr ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith a lle mae dyletswydd i ystyried yr iaith mewn penderfyniadau polisi. Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws sefydliadau ac ar draws y gwahanol elfennau o weinyddu cyfiawnder, byddai'n fanteisiol gosod safonau ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder a GLIThEM.

### Addysg a hyfforddiant cyfreithiol a galwedigaethol

Mae'n angenrheidiol fod addysg a hyfforddiant cyfreithiol a galwedigaethol yn adlewyrchu anghenion a realiti gweithio o fewn cyd-destun gwlad ddwyieithog. Golyga hyn y dylai hyfforddiant ac arholiadau cyfreithiol ar bob lefel fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Golyga hefyd fod angen i gyrsiau'r gyfraith ddysgu, enghreifftio a dehongli deddfwriaeth ddwyieithog Cymru a sicrhau bod myfyrwyr yn llawn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng deddfwriaeth Cymru a Lloegr wrth i bwerau'r Senedd ehangu. Yn ogystal, mae myfyrwyr yn mynd o Gymru i astudio yn Lloegr a bydd myfyrwyr o Loegr yn dod i Gymru i astudio'r gyfraith ac fe allant weithio yn y pendraw ym myd y gyfraith yng Nghymru neu yn Lloegr. Rwyf o'r farn felly, fod angen i ysgolion y gyfraith mewn prifysgolion ar draws awdurdodaeth Cymru a Lloegr ymdrin â materion sy'n ymwneud â deddfwriaeth ddwyieithog a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru wrth addysgu'r broses o ddehongli statudau.

Mae angen parhau i gynyddu'r cyfleoedd i astudio'r gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â chynnal ymgyrch i dynnu sylw at yr angen hwn i fedru defnyddio'r ddwy iaith ym maes y gyfraith. Ymhellach, rwyf o'r farn fod angen sicrhau hyfforddiant ieithyddol lefel uchel i fyfyrwyr sy'n astudio'r gyfraith er mwyn eu paratoi ar gyfer sefyllfa lle bônt yn drafftio neu yn dehongli deddfwriaeth yn ddwyieithog, gan gynnwys datblygu arbenigedd mewn datblygu terminoleg gyfreithiol.

### Datblygu'r gweithlu

Nid yw'n bosibl i sefydliadau yng Nghymru ddarparu ystod lawn o wasanaethau Cymraeg heb gyflenwad digonol o staff dwyieithog i wneud hynny. Mae dyletswydd ar y sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg i gasglu data am sgiliau ieithyddol y gweithlu,



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

ond oherwydd bod rhai sefydliadau yn parhau i weithredu cynlluniau iaith, nid yw'r disgwyliad hwn yn gyson ar draws y sector. Mae angen asesiad trylwyr o sgiliau iaith gweithwyr ym maes cyfiawnder gan gynnwys yr heddlu, swyddogion prawf, barnwyr, ynadon ac ymarferwyr eraill megis cofiaduron sy'n rhan o wrandawiadau llys, a dylid sicrhau y bydd digon o bobl â sgiliau Cymraeg i alluogi'r cyhoedd i gael mynediad at gyfiawnder ac i gael gwrandawiadau teg yn y Gymraeg a'r Saesneg. Y mae'r diffyg cysondeb presennol yn tanlinellu ymhellach pam y bydda'n fanteisiol gosod safonau ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder a GLIThEM.

Dylai'r angen am staff sy'n medru'r Gymraeg gael ei adlewyrchu mewn polisiau cyflogi a pholisiau datblygu proffesiynol sefydliadau a chyrrff rheoleiddio a chyrrff proffesiynol y y sector. Dylai'r maes cyfiawnder yn ei gyfanrwydd sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn cyrsiau academaidd ar lefel addysg uwch ac addysg bellach a bod myfyrwyr yn llawn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y maes cyfiawnder os ydynt yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y cyd-destun hwn, dylid diwygio'r datganiad polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar system fewnfudo yn seiliedig ar bwyntiau. Mae'r datganiad yn nodi y bydd rhaid i bob ceisydd dinasyddiaeth ddangos eu bod yn gallu siarad Saesneg. Nid wyf o'r farn fod hynny'n adlewyrchu statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru nac ychwaith yr angen am weithlu sy'n medru siarad Cymraeg.

### Carchardai

Cyflwynir 17 o argymhellion yn yr adroddiad Cymraeg yn y carchar, ac rwy'n eich annog i ystyried y ddogfen hon fel rhan o'r broses ymgynghori. O safbwynt argymhellion sy'n ymwneud â chydbwysedd pwerau cyfiawnder, mae argymhellion yn ymwneud â lleoli carcharorion a darparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Argymhellir lleoli carcharorion sydd angen gwasanaethau Cymraeg mewn carchardai sydd fwyaf abl i ddarparu'r gwasanaethau hynny; ac y dylid sicrhau bod anghenion menywod sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o unrhyw gynlluniau i



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

ddatblygu'r ddarpariaeth i droseddwyr benywaidd dan strategaeth y Llywodraeth. Dylid cryfhau trefniadau monitro argaeledd ac ansawdd y gwasanaethau Cymraeg a gynigir o fewn carchardai, a rhoi cefnogaeth i garchardai gynig y gwasanaethau hynny; a sicrhau bod gwasanaethau a gynigir o fewn carchardai gan sefydliadau allanol yn cydnabod y ffaith fod gwasanaethau Cymraeg yn arwain at ganlyniadau gwell i siaradwyr Cymraeg.

Diolch unwaith eto am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ac rwy'n gobeithio y bydd y sylwadau hyn o ddefnydd i'r pwyllgor.

Yr eiddoch yn gywir,

**Aled Roberts**  
Comisiynydd y Gymraeg